# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 8 Mawrth 2012** |
| Amser: | **13:30 - 15:20** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400005_08_03_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Darren Millar**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Dr Maire Doran, Posture and Mobility Service, Betsi Cadwaladr University Health Board**<br>**Gareth Evans, Betsi Cadwaladr University Health Boa**<br>**Helen Hortop, Artificial Limb and Appliances Service, Cardiff and Vale University Health Board**<br>**Fiona Jenkins, Cardiff and Vale University Health Board**<br>**Andrew Lloyd, Artificial Limb and Appliances Service, Cardiff and Vale University Health Board**<br>**Daniel Phillips, All Wales Posture and Mobility Service Partnership Board**<br>**Dr Cerilan Rogers, Welsh Health Specialised Services CommitteePwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Jones a Lynne Neagle. Nid oedd dim dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad undydd i wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru – tystiolaeth lafar

### Safbwynt darparwr y GIG

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru.

2.2 Cytunodd Dr Doran i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn ar gais y Pwyllgor:

- Diffiniad o 'atgyweirio' (fel y cyfeiriwyd ato yn ystod y drafodaeth ynghylch llwyddiant yr atgyweiriwr cymeradwy o ran cyrraedd targedau);
- Ei barn ynghylch y llwybr ar gyfer datblygu gwasanaethau yng ngogledd Cymru dros y 12 mis nesaf;
- Copi o'r llythyr dyrannu a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl gwrthod cais gwasanaeth gogledd Cymru am adnoddau i gefnogi gwasanaethau i oedolion.

2.3 Cytunodd Mr Lloyd i ddarparu copi drafft o'r broses gyfeirio newydd sy'n cael ei datblygu gan Wasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar de Cymru.

2.4 Cytunodd y tystion i gyflwyno eu barn ynghylch y tri maes allweddol lle mae angen cynnydd pellach mewn gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru.

### Safbwynt y cynllunydd

2.5 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru.

2.6 Cytunodd Dr Rogers i ddarparu gwybodaeth bellach er mwyn egluro'r amserlen o ran cynllunio a darparu manyleb gwasanaethau o safbwynt Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru / Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Symudedd ac Ystum Corff Cymru Gyfan.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4

3.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4.

## 4. Ymchwiliad undydd i wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru – trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a oedd wedi'i chael ynghylch gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru a chytunodd y dylai papur yn nodi'r themâu allweddol o'r dystiolaeth gael ei baratoi ar gyfer ei ystyried.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.